**Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin**

**Cofnodion Cyfarfod**

**Dydd Llun 5 Mehefin 2023**

**Canolfan Tywi, Caerfyrddin, 6pm**

**Yn Bresennol:** **Aelodau:**

Mark Hadley (MH) - Cadeirydd y Fforwm Mynediad Lleol
David Stacey (DS)
Richard Leggett (RL)
Mo Rapley (MR)
Phil Snaith (PS)
Dave Gravelle (DG)
Peter Griffiths (PG)
Sean Brown (SB)
Karen Burch (KB)
Tara-Jane Sutcliffe
(TJS)

**Ysgrifennydd –** Jason Lawday (JL) (ILS) **–** Swyddog Mynediad i Gefn Gwlad CSC

**Ymgynghorwyr / Sylwedyddion / Siaradwyr / Y Cyhoedd:**

Y Cynghorydd Edward Thomas (ET) - Cynghorydd Sir ac Aelod Cabinet dros Wasanaethau Trafnidiaeth, Gwastraff a Seilwaith
Rob Williams (RW)
Phil Morgan (PM) - Arweinydd Tîm Rheoli Tir CNC

**Ymddiheuriadau:** **Aelodau:**

Wyn Owen (WO)
Phil Snaith (PS)

**Ymgynghorwyr/Sylwedyddion:**

Sylwer:
Mae CSC yn y cofnodion hyn yn cyfeirio at Gyngor Sir Caerfyrddin ac mae HTC yn y cofnodion hyn yn cyfeirio at Hawliau Tramwy Cyhoeddus
Mae CNC yn y cofnodion hyn yn cyfeirio at Cyfoeth Naturiol Cymru

| EITE<br>M | CAM<br>GWEITHREDU |
|---|---|
| **<u>Eitem 1 – CROESO AC YMDDIHEURIADAU</u>**<br><br>Croesawodd MH a JL y fforwm a chyflwynwyd Philip Morgan.<br>Darllenodd MH yr ymddiheuriad oedd wedi dod i law.<br>Cytunodd MH / JL i newid trefn yr eitemau ar yr Agenda er mwyn PM ac ET.<br>Gofynnodd MH fod yr Agenda yn cael ei dosbarthu'n gynt yn y dyfodol (pythefnos o leiaf). | |

| | |
|---|---|
| **Eitem 2 (symudwyd yr eitem ymlaen o Eitem 10) Cais i'r Cynghorydd Thomas.**<br><br>Cododd MH fater ynghylch diffyg ymateb i gais diweddar y Fforwm i'r Cynghorydd Thomas. Dywedodd y Cynghorydd Thomas y byddai'n mynd ar drywydd hyn.<br>Esboniodd JL fod y Pennaeth Gwasanaeth (Stephen Pilliner) wedi gofyn am drafodaeth fewnol cyn ymateb, ac nad oedd hyn wedi digwydd eto.<br>Dywedodd MH nad yw'r Fforwm yn teimlo ei fod yn cael ei glywed. Mae CSC wedi ymateb yn araf yn gyson i nifer o faterion yn awr ac yn y gorffennol agos.<br>Dywedodd RL fod cyllid y Fforwm sy'n seiliedig ar grantiau yn ddibynnol ar gael Fforwm Mynediad Lleol gweithredol sy'n gweithio. Mae angen ymgysylltu'n iawn â'r Fforwm i ddangos ei fod yn gweithio'n effeithiol.<br>Dywedodd KB fod y Fforwm yn bodoli i helpu'r Awdurdod Lleol.<br>Dywedodd MH y gellir defnyddio'r Fforwm i gael cyllid ychwanegol.<br>Darllenodd JL ymateb dros dro ar gyfer ymholiadau sy'n ymwneud â materion HTC.<br><br>[TMS - Hoffwn iddi gael ei nodi bod y Cynghorydd Thomas yn bresennol yn ystod awr gyntaf y cyfarfod yn unig: Rwy'n teimlo bod hyn yn bwysig, o ystyried y pryderon a fynegwyd gan aelodau ynghylch ymgysylltu gwael â'r Fforwm Mynediad Lleol.]<br><br>**Cam Gweithredu** – CSC i roi ymateb cyn gynted â phosibl. | ET |
| **Cynllun Gwella Hawliau Tramwy** – Nodwyd nad yw'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy yn barod eto i gael ei lofnodi gan CSC i'w ddosbarthu / i ymgynghori yn ei gylch.<br><br>**Eitem 3 (Eitem 6 ar yr Agenda yn flaenorol) – GWEITHDREFNAU GWAITH COEDWIGAETH CNC**<br><br>Cyflwynodd MH PM, a roddodd drosolwg o weithdrefnau cynaeafu coed CNC.<br>Gofynnodd KB am y broses ymgynghori â thîm HTC CSC. Dywedodd PM nad yw hyn yn ofynnol ar hyn o bryd, a bod contractwyr yn gyfrifol am reoli diogelwch y cyhoedd, am wneud trefniadau o ran unrhyw ffyrdd y mae'n rhaid eu cau ac am waith adfer. Defnyddir dull pragmatig yn achos lleoliadau anghysbell nad ydynt yn cael eu defnyddio'n aml gan y cyhoedd.<br>Roedd MH o'r farn y dylai CNC ddilyn y gweithdrefnau cyfreithiol cywir.<br>Hoffai KB weld mwy o gyfathrebu ac yn ddelfrydol ni ddylid defnyddio Hawliau Tramwy Cyhoeddus ar gyfer gweithrediadau coedwigaeth.<br>Dywedodd PM y dylai'r contractwr wneud gwaith adfer i foddhad CNC a dylai'r gwaith gael ei arolygu ar ôl ei gwblhau. Mae cyfarfodydd trosglwyddo yn cael eu cynnal ar ddiwedd prosiectau cynaeafu.<br>Dywedodd KB na fyddai marchogion yn hoffi wyneb cerrig newydd.<br>Bu MH yn trafod materion diweddar ar safle coedwigaeth Fwng, Cynghordy. Mae gwaith adfer wedi arwain at welliant cyffredinol, ond gallai fod problemau yn y pen isaf lle mae'n dal i fod yn wlyb. Hoffai weld gwell cyfathrebu yn y dyfodol, ac asesiadau o gyflwr cyn y gwaith.<br>Holodd SB beth sy'n digwydd os nad yw HTC yn cael ei chau'n swyddogol.<br>KB - a allai contractwyr wneud gwaith HTC rhagweithiol tra byddant ar y safle?<br>DG – pa bwerau sydd gan CNC? A ydynt yn cael eu defnyddio?<br>MH / PM – mae diffyg contractwyr cyffredinol ar gyfer gwaith cynnal a chadw, mae'r rhan fwyaf o'r gwaith yn ymwneud â chnydau heb eu medi. | |

| | |
|---|---|
| DJ – a yw contractau'n pennu safonau?<br>DG – pa gosb sy'n cael ei rhoi os nad yw contractwyr yn adfer hawliau tramwy cyhoeddus? Cadarnhaodd PM nad oes cosb fel y cyfryw, ar wahân i beidio â chael contract yn y dyfodol o bosib.<br>PM – dylai CNC ddatblygu polisi ar gyfer llwybrau ceffylau. Argymhellir bod defnyddwyr yn gwirio gwefan CNC cyn ymweld.<br>MH – mae'r Fforwm yn cynghori bod CNC yn dilyn y gweithdrefnau cywir ar gyfer yr holl waith sy'n effeithio ar hawliau tramwy cyhoeddus ac yn gwneud cais o ran y ffyrdd y mae'n rhaid eu cau ym mhob achos.<br>JL – byddwn yn trefnu cyfarfod ar wahân i wella cyfathrebu. | |
| **Cam Gweithredu** – CNC i gysylltu â'r tîm HTC i wella cyfathrebu a gweithdrefnau yn y dyfodol. | JL / PM |
| **<u>Eitem 4 – YMGYNGHORIAD CNC YNGHYLCH DIWYGIO MYNEDIAD</u>** | |
| Agorodd JL drafodaeth ynghylch yr ymgynghoriad diweddar. Roedd y Fforwm o'r farn nad oedd llawer o newid wedi bod.<br>Dywedodd MH nad oedd CNC wedi gallu bwrw ymlaen â newidiadau arfaethedig oherwydd diwygio Llywodraeth Cymru. Bydd CNC yn dilyn argymhellion aneddfwriaethol.<br>Dywedodd JL nad oedd CSC wedi derbyn unrhyw ohebiaeth ddiweddar arall ynghylch hyn. | |
| **Eitem 5 – (Eitem 3 ar yr Agenda yn flaenorol) CERBYDAU SYMUDEDD ODDI AR Y FFORDD** | |
| Rhoddodd JL drosolwg o'r cerbyd symudedd ar gyfer pob math o dir sydd newydd ei ddatblygu sy'n cael ei dreialu ar hyn o bryd gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn y Ganolfan Fynydd, Libanus, Powys. Sylwadau cadarnhaol yn gyffredinol gan aelodau'r Fforwm. Cafwyd trafodaeth ynghylch eu defnyddio ar gilffyrdd a lonydd gwyrdd - a fyddent wedi'u heithrio rhag Gorchmynion Rheoleiddio Traffig? | |
| **Cam Gweithredu** – Egluro'r sefyllfa gyfreithiol mewn perthynas â Gorchmynion Rheoleiddio Traffig. | ILS |
| **<u>Eitem 6 – YMGYNGHORIAD PROSIECT DAL CARBON TAN Y LAN</u>** | |
| Rhoddodd JL drosolwg o'r prosiect. Yn sgil trafodaeth gyffredinol roedd rhywfaint o ddryswch ynghylch y lleoliad a'r effaith y bydd y prosiect hwnnw'n ei chael ar fynediad i'r cyhoedd. Eglurodd JL fod y safle ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, ac yr ymgynghorir â Fforwm Mynediad Lleol Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog hefyd. Nid oes gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog gyfrifoldeb dirprwyedig dros y rhwydwaith ffyrdd, felly byddai'r ffordd ddiddosbarth 'lôn werdd' sy'n mynd drwy safle'r prosiect yn dal i fod yn berthnasol i'r Fforwm. Eglurodd JL fod y tîm Cynllunio Priffyrdd wedi rhoi ymateb ac na fyddai'r datblygwr yn defnyddio'r ffordd ddiddosbarth ar gyfer gweithrediadau coedwigaeth, er y byddai angen iddynt groesi'r ffordd yn y prif fan mynediad. Rhoddodd JL wybodaeth gefndir am y ffordd, gan ddweud ei bod wedi bod ar wahân i'r caeau cyfagos o'r blaen, ond bod tirfeddianwyr wedi gwaredu gwrychoedd i'w chynnwys yn y caeau, gan arwain at yr angen am gatiau. Efallai y bydd modd cael gwared ar rai gatiau fel rhan o'r prosiect, gan na fydd y caeau yn cael eu pori mwyach. | |

| | |
|---|---|
| MH - dylid ymgynghori â sefydliadau oddi ar y ffordd, GLASS a'r TRF hefyd. Gofynnwyd am fap cliriach, eglurhad ar gael gwared ar y gatiau a sicrwydd y bydd mynediad yn cael ei gynnal yn ystod y gwaith.<br>Holodd KB a ellid uwchraddio'r llwybr cyhoeddus i lwybr ceffylau i ddarparu cyswllt o'r ffordd i Goedwig Pen Arthur (cafwyd trafodaeth ychwanegol ynghylch man mynediad arall a gynigiwyd yn flaenorol mewn lleoliad arall ar y ffordd).<br><br>**Cam Gweithredu** – CSC i ymateb i'r datblygwr i ofyn am fap cliriach / wedi'i ddiweddaru, eglurhad ar gael gwared ar gatiau a sicrwydd y bydd mynediad yn cael ei gynnal yn ystod y gwaith. Gofyn am uwchraddio'r llwybr i statws llwybr ceffylau. Gofyn yr ymgynghorir â GLASS a TRF.<br>**Cam Gweithredu –** PM i ymchwilio i gysylltiadau llwybr ceffylau o'r ffordd – cysylltu â JL. | JL<br>PM |
| **<u>Eitem 7 – DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU)</u>**<br><br>KB – nid yw marchogion wedi cael eu cynnwys yn y Ddeddf. Cyfeiriodd KB at ymateb diweddar i'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl), y gellid ei ddefnyddio mewn ymateb.<br>TJS – Hysbysodd y Fforwm fod y Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn cynnal ymgynghoriad.<br><br>**Cam Gweithredu** – cael a dosbarthu gwybodaeth ychwanegol am yr ymgynghoriad. | ILS / TJS |
| **<u>Eitem 8 – Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM Y STRATEGAETH FARCHOGAETH</u>**<br><br>Dywedodd JL nad oes unrhyw waith wedi cael ei wneud i ailddrafftio'r Strategaeth Farchogaeth ers i Caroline Ferguson fynd ar gyfnod mamolaeth.<br>KB - dywedodd ei bod yn siomedig iawn. Y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy yw'r unig ddogfen CSC sy'n cyfeirio at farchogion, a nod y Strategaeth Farchogaeth oedd mynd i'r afael â materion nad ydynt yn cael sylw yn y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy. Roedd y Cynghorydd Campbell eisoes wedi egluro bod angen strategaeth i ymdrin â phortffolios gwahanol. Ystyrir bod marchogion yn ddefnyddwyr hamdden, ond nid yw Hamdden yn darparu ar eu cyfer. A oes unrhyw ffordd i helpu'r Awdurdodau i gael cyllid? A ellir tynnu themâu o ddogfen y Strategaeth fel y gall y Fforwm gael mewnbwn? Dylid rhoi cyfle i'r Fforwm symud y ddogfen hon yn ei blaen, ond mae'r Awdurdod o'r farn bod hyn yn bosibl, naill ai drwy roi themâu i ni wneud sylwadau arnynt, darnau ohoni, neu ddrafft, fel bod cynnydd yn cael ei wneud. Pan ddaw Caroline yn ôl bydd esgusodion eraill pam na ellir symud hyn yn ei flaen ac wrth reswm nid dyna fydd ei phrif flaenoriaeth, felly, y Cam Gweithredu oedd nodi sut y gellir defnyddio'r Fforwm i wneud rhywfaint o gynnydd tra bydd hi i ffwrdd, i gynorthwyo Caroline, ac awgrymwyd defnyddio ymgynghorydd hefyd. Nodwyd hefyd nad yw canlyniadau'r arolwg wedi'u cyflwyno i'r Fforwm. Gofynnais a allem gael adborth. Roedd swyddogion Cymdeithas Ceffylau Prydain a minnau yn rhan o'r gwaith o lunio'r cwestiynau ac roeddem yn disgwyl rhai canlyniadau yn sgil yr amser y gwnaethom ei fuddsoddi ynddo.<br>MH – a all KB gael golwg ar y ddogfen ddrafft? Byddai'r Fforwm yn hoffi cael canlyniadau'r crynodeb a chynnydd.<br>Dywedodd RL mai'r prif fater oedd diffyg capasiti. A ellid defnyddio | |

| | |
|---|---|
| ymgynghorydd? Mae'r Fforwm yn cydymdeimlo'n llwyr â'r problemau hirdymor oherwydd diffyg adnoddau ond maent yn pryderu am y diffyg gweithredu ynghylch y Strategaeth Farchogaeth gan fod hon wedi bod yn cael ei datblygu ers nifer o flynyddoedd heb gynnyrch.<br>ET - bydd yn rhoi rhagor o sylw i'r mater hwn. | |
| **Cam Gweithredu** – Ymchwilio i opsiynau ar gyfer darparu gwybodaeth berthnasol i'r Fforwm. | ILS / ET |
| **Eitem 9 – CAMAU YN CODI O GOFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF** | |
| **(2) – YMGYNGHORIAD YNGHYLCH CAU CROESFAN AR YR A48** | |
| JL – yn dilyn yr ymateb a ddarllenwyd yn Eitem 2, tîm HTC i roi'r wybodaeth ddiweddaraf. | |
| **Cam Gweithredu** – Ymchwilio a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Fforwm (Kirsten Stiles (KS)). | KS |
| **(3) ADRODDIADAU AR FATERION** | |
| RL – Adroddiadau ar faterion wedi'u derbyn a'u dadansoddi. Gallai arolwg rhwydwaith arfaethedig olygu na fydd angen ystadegau yn y dyfodol. Am y tro, dylem barhau ag adroddiadau chwarterol. Cais am i'r adroddiad nesaf gael ei lunio ddiwedd mis Mehefin. Gyda'i gilydd, mae materion wedi codi'n sylweddol, gydag effaith bosibl ar ôl Covid. Yn ystod y saith mlynedd ers i'r Fforwm ddechrau derbyn adroddiadau rheolaidd ar faterion, mae cyfanswm y materion heb eu datrys ar draws y timau cynnal a chadw a chyfreithiol wedi codi o 1623 (Mai 2016) i 2911 (Mai 2023). Mae nifer y materion sydd heb eu datrys am dros 5 mlynedd wedi codi'n sylweddol ers mis Mai 2016. Mae nifer y materion cynnal a chadw sydd heb eu datrys am dros 5 mlynedd wedi codi o 413 i 786. Mae nifer y materion cyfreithiol sydd heb eu datrys am dros 5 mlynedd wedi codi o 88 i 432. Mae'r ystadegau'n dangos y cynnydd yn y galw ac adrodd ar faterion ac yn dangos bod timau HTC yn wasanaeth sydd heb ddigon o adnoddau sy'n gofyn am fwy o ymrwymiad gan yr Awdurdod.<br>Arweiniodd hyn at drafodaeth gyffredinol ynghylch yr angen am well gwybodaeth am lwybrau troed lleol. Disgrifiodd RL lwybr heb ei ddefnyddio ddigon rhwng Nantgaredig a Chaerfyrddin y gellid ei hysbysebu'n well i bobl leol drwy baneli gwybodaeth y gallai'r Cynghorau Cymuned eu gosod. Gellid trafod y syniad o ddarparu paneli gwybodaeth sy'n dangos yr Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn lleol gyda'r Cynghorau Cymuned.<br>Canmolodd TJS y paneli gwybodaeth newydd yn Llanymddyfri, sydd wedi eu gosod gan y Cyngor Tref.<br>Rhoddodd MH wybod i'r Fforwm bod CSC wedi tynnu cyllid heb ei ddefnyddio'n ddigonol o'r Cynghorau Tref a Chymuned yn y gorffennol i gyflogi ceidwaid ychwanegol. Rhoddodd JL rywfaint o wybodaeth gefndir am brosiectau Llwybrau'r Sir gan gyfeirio at y paneli gwybodaeth a osodwyd fel rhan o'r prosiectau. Rhoddodd JL drosolwg hefyd o brosiectau gwirfoddol sy'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd a chyfeiriodd at arolwg rhwydwaith sydd ar y gweill.<br>RL – A allai Ramblers Cymru ddod i gyfarfod nesaf y Fforwm?<br>Holodd KB a yw'r ystadegau yn cael eu harchwilio ar lefel uwch. | |
| **Cam Gweithredu** – Darparu'r Adroddiad nesaf ar Faterion. | ILS |
| **Cam Gweithredu** – Gwahodd Ramblers Cymru i gyfarfod nesaf y Fforwm. | ILS |
| **Cam Gweithredu** – Cysylltu â'r Cynghorydd / Bwrdd Gweithredol ynghylch | MH |

| | |
|---|---|
| defnydd ystadegau gan yr Awdurdod.<br><br>**(5) DIWEDDARIAD AM Y PROSIECT**<br><br>JL – rhoddodd ddiweddariad gan Alan Warner (AW).<br>Dywedodd MH nad oedd y diweddariad yn cynnwys y deg prosiect a drafodwyd o'r blaen a hoffai gael rhagor o wybodaeth. Dylai'r Fforwm fod wedi cael mewnbwn.<br>KB – trafodaeth ynglŷn â gwella llwybr ceffylau Mynydd Mallaen. A yw AW wedi defnyddio'r cysylltiadau a ddarparwyd gan KB? A yw cyllid a ddarparwyd gan Farchogion Sir Gaerfyrddin wedi cael ei ddefnyddio? Beth fydd yn digwydd gyda chyllid ychwanegol?<br><br>**Cam Gweithredu** – Cael diweddariad gan Alan Warner (CSC). | <br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br>ILS |
| **(6) CYFARFOD CADEIRYDDION Y FFORWM MYNEDIAD LLEOL**<br>MH – dim diweddariad.<br>JL - diweddariad ar Gam Gweithredu blaenorol ynghylch diweddariadau Llwybr Arfordir Cymru / swyddog i ddod i'r Fforwm. Eglurodd nad oes diweddariadau ar gael hyd yn hyn, ond bydd yn mynd ar drywydd y mater.<br><br>**Cam Gweithredu** – Gwahodd Swyddog Llwybr Arfordir Cymru i gyfarfod nesaf y Fforwm. | <br><br><br><br><br><br>ILS |
| **(7) CYNIGION MARCHOGAETH YM MHARCIAU CSC**<br>KB – ni chafodd ymateb i ymholiad. Aeth ymweliad safle diweddar ym Mynydd Mawr gyda marchogion yn dda, llwybrau addas ar gyfer marchogion ond efallai nid pob defnyddiwr. Dywedodd rheolwr y safle y bydd y llwybrau'n aros fel y maent.<br>KB - mae mynediad i'r traeth drwy gilffordd wedi cael ei rwystro gan folard.<br>Cyflwynodd MH ymholiad diweddar ynghylch marchogaeth ar draeth gan ddefnyddwyr cart a cheffyl. | |
| **(8) CYFARFOD MARCHNATA HTC**<br>MH – rhoddodd ddiweddariad ac eglurodd fod y gyllideb yn rhy fach i ganiatáu cynhyrchu taflenni papur, felly bydd y daflen yn aros mewn fformat digidol.<br>KB - dylai fod mwy ar gyfer marchogion, ond nid oes gwefannau pwrpasol gan y rhan fwyaf ohonynt, gan fod cyfathrebu yn digwydd yn bennaf trwy Facebook.<br>DG – a oes achos posibl dros ddefnyddio codau QR? | |
| **(9) BEICIO AR LWYBRAU TROED**<br>MH – dim diweddariad. Arweiniodd hyn at drafodaeth gyffredinol ar yr ymgyngoriadau diweddar ynghylch Llwybr Beicio Dyffryn Tywi. | |
| **(11) MAP O DIR COMIN**<br>JL - dim diweddariad.<br><br>**Cam Gweithredu –** Cysylltu â Swyddog Tir Comin CSC, Andrew Paterson. | <br><br><br>ILS |
| **(12) YMWELIAD Â'R ARCHIFAU**<br>JL - dim diweddariad. | |

| | |
|---|---|
| **Cam Gweithredu –** Cysylltu â'r Archifau i bennu dyddiadau addas a threfnu ymweliad.<br><br>**(13) GORCHMYNION RHEOLEIDDIO TRAFFIG PARHAOL BYW CYFREDOL**<br>MH – dim diweddariad. Soniwyd am y Grŵp Defnyddwyr Cilffyrdd, ynghyd â'r ffaith bod cofnodion cyfarfod diwethaf y Grŵp Defnyddwyr Cilffyrdd yn cael eu dosbarthu'n fewnol ar hyn o bryd.<br><br>**Cam Gweithredu –** mynd ar drywydd y mater hwn drwy gysylltu â thîm cyfreithiol Priffyrdd ynghylch y rhestr o Orchmynion Rheoleiddio Traffig y gofynnwyd amdani o'r blaen.<br><br>**<u>EITEM 10 – UNRHYW FUSNES CYMWYS ARALL</u>**<br><br>**GORLLEWIN BRECHFA**<br>MH – Hoffai gael y wybodaeth ddiweddaraf am lwybr pellter mawr Gorllewin Brechfa a Grŵp Cerdded.<br><br>**Cam Gweithredu -** mynd ar drywydd y mater drwy gysylltu â CNC.<br><br>**NODDI A HYRWYDDO GATIAU**<br>Rhoddodd RL wybodaeth a ddarparwyd yn ddiweddar gan Alan Richards ynghylch prosiectau noddi gatiau Llwybr Arfordir Cymru yng Ngheredigion a Sir Benfro. A allai tîm HTC / Swyddog Llwybr Arfordir Cymru ystyried hyn ar gyfer Sir Gaerfyrddin.<br>Cyflwynodd RL erthygl ddiweddar yn hyrwyddo Sir Gaerfyrddin yng nghylchgrawn Ramblers UK.<br><br>**DIWEDDARIAD STAFFIO Y TÎM HTC**<br>JL – rhoddodd y wybodaeth ddiweddaraf i'r Fforwm am y gymeradwyaeth a roddwyd yn ddiweddar i newid proffiliau swydd y ddwy swydd wag, a fydd bellach yn dod yn geidwad ychwanegol ac yn swyddog prosiect. Bydd swydd ceidwad ychwanegol hefyd.<br>MH – mae'r Fforwm yn hapus iawn gyda'r newyddion hyn.<br><br>**LLWYBR RHEILFFORDD CALON CYMRU A RHOI GWYBOD AM FATERION**<br>Yn ddiweddar, teithiodd KB ar ran o Lwybr Rheilffordd Calon Cymru a daeth o hyd i rai materion. Gofynnodd am y ffordd orau o roi gwybod am faterion, a sut mae mynd ar drywydd materion ar ôl rhoi gwybod amdanynt i CAMSWEBB.<br>Esboniodd JL y protocol blaenoriaethu.<br><br>**AROLWG RHWYDWAITH**<br>Dychwelodd y drafodaeth i'r arolwg rhwydwaith sydd ar y gweill. Rhoddodd JL drosolwg, gan nodi y byddai Ramblers Cymru yn cael eu cyflogi i hwyluso'r prosiect, a oedd yn cynnig manteision o ran yswiriant, hyfforddiant, ymrwymiad staff, ac ati. Byddai gan y Swyddog Prosiect newydd rôl hefyd.<br>Awgrymodd RL, oherwydd maint y dasg, y gallai fod yn syniad da treialu arolwg peilot yn gyntaf.<br><br>**MYNEDIAD I'R YSBYTY**<br>PG – cynhaliwyd ymweliad, bydd safle'r ysbyty newydd arfaethedig yn cael ei | ILS<br><br><br><br><br><br><br><br>MH<br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br>ILS / PM |

| | |
|---|---|
| ddewis ar ddiwedd y flwyddyn. Bydd Parcio a Theithio yng Nglangwili yn dod i ben. Mae lleoedd parcio ychwanegol ar gael yng ngorsaf drenau newydd Rheilffordd Gwili.<br><br>**ADRODDIAD BLYNYDDOL**<br>Dywedodd MH mai cyfrifoldeb yr Awdurdod Lleol yw darparu hyn, ond ei fod wedi gwneud y gwaith o lunio adroddiadau diweddar i sicrhau eu bod yn cael eu hysgrifennu.<br><br>**Cam Gweithredu –** gwneud penderfyniad a chynnydd.<br><br>**LLWYBR DYFFRYN TYWI**<br>Cafwyd trafodaeth a holwyd am y Gorchymyn Prynu Gorfodol sy'n ymddangos yn berthnasol i'r llwybr i gyd. Yn benodol, mynegodd aelodau'r Fforwm bryder y gallai hyn arwain at gynnen gyda defnyddwyr y llwybr os yw tirfeddianwyr yn gwrthwynebu'r llwybr.<br><br>Cyfarfod nesaf Dydd Llun 18 Medi,<br>Canolfan Hamdden Caerfyrddin | <br><br><br><br><br><br><br>MH / ILS |